## Tystebau Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ESF P1 a P3 - Cyflogadwyedd

*"Rydym wir wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn y 'Cyfarfodydd Rhwydwaith Cyflogadwyedd P1 a P3 Cronfa Gymdeithasol Ewrop'; mae'r rhain wedi bod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth a modd o ddiweddaru o ran y darlun ehangach ar draws Cymru, gan ddarparu diweddariadau allweddol gan WEFO, Llywodraeth Cymru, a'r RSP yn ogystal â chael diweddariadau pwysig gan bartneriaid allweddol, ar draws ystod o feysydd pwnc sydd hefyd wedi cynnwys diweddariadau cyllido. Mae'r cyfarfodydd rhwydwaith hefyd wedi rhoi cyfle i ni gyflwyno ein gwasanaeth a'i hyrwyddo i'r aelodau, a rhoi cyfle i ni rwydweithio gydag aelodau eraill i ddatblygu cyfleoedd partneriaeth da i gynyddu cysylltiadau gyda phrosiectau UE eraill, a'n cefnogi ni i ddatblygu cysylltiadau allweddol ar draws Gogledd Cymru.*

*Mae ymgysylltu â chi hefyd wedi ein cefnogi i allu dangos effaith ein gwaith trwy ddarparu rhai astudiaethau achos sydd wedi eu hyrwyddo yn eich newyddlen ac rydych yn cynnwys ein gweminarau a digwyddiadau hyfforddi yn y bwletinau newyddion sy'n cyrraedd cynulleidfa ehangach, ar draws Cymru.*

*Rydych hefyd wedi fy nghefnogi i ddarparu cyflwyniad i'r RET ar gyfer Caerdydd ac ardal y Fro sydd wedi bod yn allweddol i'n paratoi ar gyfer tendr newydd.*

*Diolch am bopeth rydych yn ei wneud - gwerthfawrogir eich cymorth yn fawr iawn.*

Claire Williams RCS Cymru (ESF P1)

*"Mae Rhaglen Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales a ariannwyd gan WEFO bellach yn dod i ben.*

*Trwy gydol y 6 mlynedd, rwyf wedi gwerthfawrogi'r wybodaeth, cyngor a chefnogaeth a gafwyd gan y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol. Trwy fynychu cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd, rwyf wedi cael y cyfle i ddatblygu perthnasau gyda darparwyr cefnogi cyflogadwyedd eraill, rhannu ymarfer da a chael cyfleoedd i gyfranogwyr GO Wales ym Mhrifysgol Bangor.*

*Mae'r tîm wedi ein hysbysu ynglŷn â datblygu sgiliau busnes a sector trwy newyddlenni ac e-negeseuon ac wedi rhoi gwybodaeth a chyngor gwych ar sectorau busnes, sydd wedi ychwanegu at lwyddiant y prosiect.*

*Hoffwn ddiolch yn benodol i Vicky sydd bob amser wedi bod wrth law ac yn fodlon helpu, darparu cyngor a chysylltiadau cyflogwr. Mae ei chefnogaeth wedi ein helpu i sicrhau cyfleoedd profiad gwaith gwych i'n cyfranogwyr. Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi!".*

Lis Owen - Rheolwr Prosiect GO Wales, Prifysgol Bangor (ESF P3)

*"Mae'r tîm RET yng Ngogledd Cymru wedi bod yn amhrisiadwy i ni yn nhîm Cynhwysiant Gweithredol WCVA. Bu'n wych eich cael yn rhan o'n cyfarfodydd rhwydwaith a oedd yn gyfle i'n sefydliadau sy'n cael grantiau i weld y darlun ehangach o gyllid UE ac i hyrwyddo eu gwasanaethau eu hunain. Mae'r cyfarfodydd P1/P3 hefyd wedi bod yn ffordd wych o gyflwyno ein prosiect a hefyd dysgu am bob math o gyfleoedd eraill ledled Gogledd Cymru ac yn ehangach. Diolch i Barbara a Vicky am ein cynnwys yn y newyddlenni ac am ein cefnogi dros y blynyddoedd diwethaf.*

Gail Dervish - WCVA AIF (ESF P1 a P3)

## Tystebau Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop P2 Sgiliau ar gyfer Twf

### Prosiect Academi Fusnes Gogledd Cymru

*"Mae bod yn rhan o gyfarfodydd Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Twf Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi bod yn werthfawr iawn i brosiect Academi Busnes Gogledd Cymru. Roedd bod yn brosiect rhanbarthol, aml bartner yn darparu Cymwysterau Addysg Uwch unigryw ar draws Gogledd Cymru angen cydweithio sylweddol a rhannu gwybodaeth i fod yn llwyddiannus. Drwy ddod â'r holl brosiectau at ei gilydd i rannu diweddariadau ac arferion gorau, roedd NWBA yn gallu dysgu'n gyflym o brosiectau eraill a chydweithio ar weithgareddau megis Marchnata ac Ymgysylltu â Chyflogwyr i sicrhau bod buddiolwyr yn cael mynediad at draws-doriad o fanteision sgiliau. Hefyd roedd y rhwydwaith yn fy nghaniatáu i greu perthynas newydd gyda rhanddeiliaid allweddol ledled Gogledd Cymru a hyrwyddo ein cynnig drwy eu cylchlythyr. Yn cynnwys swyddogion personél allweddol yn rheolaidd o WEFO mewn cyfarfodydd ar dasgau prosiectau penodol megis cau prosiect, cefnogi a dilysu, roeddem yn cymryd y dull cywir i gau'r prosiect."*

Diolch

Gary Jones, Rheolwr Prosiectau Rhanbarthol Llandrillo Menai

### Arweinyddiaeth ION a 20Twenty

*"Fel partner Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Twf Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae wedi bod o fudd mawr. Mae rhannu manylion ynglŷn â'n rhaglenni Arweinyddiaeth, cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid eraill wedi bod yn amhrisiadwy. Wrth gael cefnogaeth a chymorth ychwanegol i arddangos ein gweithgareddau a digwyddiadau marchnata, mae'r rhwydwaith wedi bod yn adnodd ardderchog. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi helpu i sefydlu perthnasau cadarn gyda budd-ddeiliaid allweddol.*

*Mae'r newyddlen wedi bod yn fuddiol o ran rhannu manylion ein rhaglenni a ariennir, sydd yna wedi cefnogi twf busnesau ar draws Gogledd Cymru".*

Jackie Whittaker

Uwch Reolwr ar gyfer arweinyddiaeth ION a 20Twenty Twf Busnes Ysgol Fusnes Bangor

## Tystebau Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol - ERDF

### CEMET - Canolfan Ragoriaeth mewn Technoleg Symudol a Datblygol

*“Mae Matt Smith a minnau wedi ymgysylltu’n aml â Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol Gogledd Cymru ers lansiad CEMET yn 2015. Yn ystod y cyfnod hwn, mae’r cyfarfodydd hyn wedi darparu ffynhonnell bwysig iawn o wybodaeth o ran tirwedd strategol y rhanbarth, y potensial i Integreiddio gyda mentrau lleol eraill, a chyfleoedd i gefnogi digwyddiadau sy’n targedu busnesau bach a chanolig.*

*Yn allweddol, mae hefyd wedi rhoi’r cyfle i ni roi diweddariadau i Barbara a Vicky ar weithrediad CEMET, gan gynnwys cyflwyno astudiaethau achos ar gyfer eu newyddlen. Yn fwy diweddar, maent wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth rannu’r datblygiadau diweddaraf gyda’r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chanllawiau cau prosiect. Diolch yn fawr i chi’ch dwy am eich arbenigedd a’ch cefnogaeth barhaus - rydych wedi bod yn wych!”*

Clayton Smith Rheolwr Rhaglen CEMET (ERDF P1.2)

### ACNM - Llwybrau Masnacheiddio Technolegau Nano a Micro

*“Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn adnabyddus am fod yn rhagweithiol ac maent wedi galluogi nifer o fentrau sydd wedi bod yn werthfawr iawn i ddiwydiant. Mae llif gwybodaeth ac amlder wedi bod yn berffaith. Rwyf wedi gwerthfawrogi’r holl waith caled ac rwy’n sicr ei fod yn gwneud gwahaniaeth yn y Gogledd.*

*Diolch am yr holl wybodaeth a roddwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae’n siomedig nad oes gennym fwy o gwmnïau o Ogledd Cymru yn cymryd rhan y gallaf eu cyfeirio atoch. Mae eich grŵp yn sefyll allan.”*

Glyn R Davies, Rheolwr Prosiect i ACNM (ERDF P1.2)

### M-SParc

*“Mae’r RET wedi ymgysylltu â ni ar hyd y ffordd, yn dangos effaith ein gwaith, hyrwyddo ein gweithgareddau yn eu newyddlen sydd wedi ein helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Mae’r RET hefyd wedi mynychu digwyddiadau yn a gyda M-SParc, sydd wedi bod yn galonogol i ni, ac rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth barhaus.*

Emily Roberts, Rheolwr Allgymorth a Chymuned M-SPARC (ERDF P1.2)